

Ebrill 27^{ain}, 2022

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin Cyngor Cymuned Llandybïe, a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Llandybïe a thrwy gyfrwng Microsoft Teams ar yr un pryd ar ddydd Mercher, Ebrill 27^{ain}, 2022 am 6.30 yh.

Presennol

Cynghorwyr	I. Rh. Llewelyn	P. H Roberts	E. W. Nicholas
	R. A Davies	D. Nicholas	Mrs Ll. Hindley
	Mrs K. D. L. Davies	B. Rees	A. W Jones
	Mrs Ll. Latham	Mrs S. E. Thomas	Mrs A. Evans
	Mrs C. Thomas		

Ymddiheuriadau

Cynghorwyr	D Hopkins	A. J. Evans	Mrs J. E. Collins
------------	-----------	-------------	-------------------

1080.

DATGANIADAU O FUDDIANT

Nid oedd unrhyw ddatganiad.

1081.

COFNODION

Rhodddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfodydd canlynol fel y'u dosbarthwyd hwy:

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar Fawrth 30^{ain}, 2021.

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Fawrth 30^{ain}, 2021.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r mynychwyr os oedd unrhyw fater i'w godi, a **phenderfynwyd** cymeradwyo Cofnodion y cyfarfodydd hyn yn gofnodion cywir. **Penderfynwyd** hefyd gadarnhau argymhellion y Pwyllgor.

1082.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar Fawrth 30^{ain}, 2022

i) Cofnod rhif 1072(j) – Cais Rhyddid Gwybodaeth – Roedd y Cynghorydd Mrs S. E. Thomas yn gwrthwynebu hepgor enw'r person a oedd wedi gwneud y cais Rhyddid Gwybodaeth.

Yr oedd y Clerc wedi hysbysu'r Aelodau bod hyn oherwydd gofynion GDPR, a nad oedd hawl cyhoeddi enw'r ymgeisydd.

GOHEBIAETH

1083.

Adroddiadau'r Heddlu

Ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau ynghylch troeseddu ar gyfer mis Ebrill 2022.

Cadeirydd

1084.

Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Roedd y Cynllun Strategol ar gyfer 2022 – 2027, a Chynllun Gwella Busnes Blynyddol 2022 – 2023 Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi'i gyhoeddi. **Penderfynwyd** nodi'r eitem gohebiaeth hwn.

1085.

Gorchymyn Cadw Coed

Roedd hysbysiad ffurfiol wedi'i dderbyn oddiwrth Gyngor Sir Caerfyrddin yn hysbysu'r Aelodau bod Gorchymyn Cadw Coed wedi'i rhoi ar 3 Derwen yn tu ôl i 30-34 Heol Pentregwenlais, Llandybïe. Mae'r hysbysiad yn un dros dro a bydd yn dal mewn grym am gyfnod o 6 mis, neu tan fod y Cyngor yn cadarnhau'r hysbysiad. Rhaid cyflwyno unrhyw sylwadau at y Cyngor Sir erbyn Mai 5^{ed}, 2022.

1086.

GILFACH IAGO

Ni dderbyniwyd unrhyw ddiweddariad pellach oddiwrth Gyngor Sir Caerfyrddin.

1087.

ADRODDIAD Y CLERC

) **Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

i) Llwybr troed rhif 51/18 yn Saron

Nid yw'r llwybr troed hwn erioed wedi bod yn rhan o gytundeb cynnal a chadw blynyddol y Cyngor Cymuned ond, yn ddiweddar, roedd hi wedi bod yn anodd ei ddefnyddio oherwydd bod coed wedi cwmpo arno a changhennau isel yn blocio'r llwybr. Gofynnwyd i Dynevor Tree Services glirio'r llwybr troed a thynnu i ffwrdd yr holl rhwystrau fel bod modd i gerddwyr ei ddefnyddio yn haws. Roedd y gwaith wedi'i gwblhau yn foddhaol am bris o £420 a, gyda chydsyniad y Cadeirydd, talwyd yr anfoneb.

(ii) Cytundebau cynnal a chadw blynyddol – y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Gofynnwyd i bum contractwr gyflwyno tendr ond dim ond dau oedd wedi'u dychwelyd. Roedd y Clerc, y Swyddog Gweinyddol a'r Cadeirydd wedi agor y tendrau ar Ebrill 20^{fed}, 2022. Dyfarnwyd pob un o'r naw contract i Dynevor Tree Services am gyfanswm o £3285, heb gynnwys TAW. Nid oedd angen cywiro'r tendrau a dderbyniwyd ac roedd y contractwr o ddewis wedi'i hysbysu fel bod modd bwrw at y gwaith cyn gynted â phosib.

Penderfynwyd cymeradwyo dyfarnu'r cytundebau.

b) Parc Bonllwyn

Cytunwyd amnewid dau eitem o offer a gosod wyneb newydd yn lle'r wyneb diogelwch is-safonol presennol, a hynny fel prosiect Datblygu Cymunedol ar gyfer 2022/2023. Yn ddiweddar, roedd Parc Bonllwyn wedi'i nodi o risg canolig oherwydd cyflwr gwael y wyneb diogelwch a bod pydredd yn yr uned chwarae i blant bach. Roedd y Clerc wedi gwahodd tri dyfynbris a **phenderfynwyd** dyfarnu'r contract i Sunshine Playgrounds Ltd am bris o £19,999.99 a TAW.

c) Meddalwedd adnewyddu'r gyflogres

Gyda chydysyniad y Cadeirydd, mae'r cytundeb trwydded i ddefnyddio Brightpay fel system gyflogres y Cyngor wedi cael ei hadnewyddu. Mae'r anfoneb, am y swm o £169 a TAW, wedi cael ei thalu.

ch) Offer ar gyfer cynnal cyfarfodydd hybrid

Prynwyd bar sain awdio/ fideo Polycom Studio a llwybrydd newydd oddiwrth Comcen Computer Supplies Ltd am bris o £725 a TAW, offer a fydd yn caniatáu i'r Cyngor gydymffurfio â'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, deddf sy'n datgan bod rhaid cymryd camau rhesymol i sicrhau bod modd mynychu cyfarfodydd o leoliadau lluosog. Prynwyd yr offer ar ôl cynnal nifer o sesiynau profi a gwneud sawl ymweliad safle i'r cyflenwyr, a chytunwyd ar y pryniant ar ôl trafod gyda'r Cadeirydd. Roedd y cyfleusterau wedi bod ar gael ar gyfer cyfarfod diwethaf y Cyngor Llawn, ac roedd y cyfan wedi gweithio'n llwyddiannus, ac wedi derbyn adborth positif oddiwrth yr Aelodau a oedd yn bresennol.

Mae angen cysylltiad WIFI trwy lwybrydd ar yr offer, ac roedd y Clerc wedi trefnu cytundeb sim yn unig am 18 mis gyda chwmmi Vodafone, a hynny am £20 y mis, yn dilyn taliad o £27.74 a oedd yn talu am ran o fis Mawrth 2022. Nid oedd modd cofrestru'r cytundeb yn enw'r Cyngor oherwydd bod angen cerdyn debyd i sefydlu'r cytundeb, felly bydd y contract yn enw'r Clerc, a bydd y Clerc yn hawlio ad-daliad o'r arian. Mae modd trosglwyddo'r contract pe byddai'r Clerc yn gadael ei swydd.

Penderfynwyd cymeradwyo'r pryniad a'r trefniant contract newydd.

d) Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2022/2023

Gwanaethpwyd cais llwyddiannus am y disgownt 50% ar yr ardrethi a oedd yn ddyledus ar bafiliwn Bowlio a Thenis Llandybie am y flwyddyn ariannol 2022/2023. Bydd hyn yn gostwng y swm y mae'n rhaid ei dalu i £1043.25.

dd) Mainc yn Heol Ddu

Derbyniwyd tri dyfynbris am fainc pedestal gorffeniad caled, ynghyd ag ategolion gosod, a roddwyd yr archeb i Streetmaster UK Ltd o Ystradgynlais am bris o £326.34 a chludiant a TAW. Bydd y Clerc yn trefnu bod contractwr lleol yn gosod y fainc yn gadarn ar y sail concrit.

e) Microsoft Outlook 365

Derbyniwyd tanysgrifiad blynyddol am 21 defnyddiwr y Cyngor oddiwrth Morgan and Morgan am bris o £1134.00 a TAW. **Penderfynwyd** talu'r eitem.

f) Torri'r glaswellt yng Ngorsddu

Roedd y Clerc wedi gofyn i J T Services i barhau i dorri'r glaswellt yn yr ardal hon rhwng mis Ebrill a mos Hydref, am bris o £40 y toriad.

Penderfynwyd cymeradwyo'r contract.

1088.**MATERION ARIANNOL****(i) Talu'r biliau**

Derbyniwyd yr anfonebau canlynol yn ystod Ebrill 2022 ac, yn dilyn trafodaeth gyda'r Cadeirydd, eu talu.

5821	Thesaurus Software Ltd	Adnewyddu'r drwydded gyflogres Brightpay am y flwyddyn 2022/2023	£202.80
5824	EDF	Parc Penygroes – Mawrth 2022	14.48
5829	EDF	Sied Fowlio Llandybïe – Mawrth 2022	£23.68
5831	Y Comisiynydd Gwybodaeth	Ffi blynyddol diogelu data	£40.00
5836	Dynevor Tree Services	Llwybr troed rhif 51/18 yn Saron – clirio coed a oedd wedi cwmpo a changhennau isel	£420.00

Hefyd, derbyniwyd yr anfonebau canlynol:-

5822	Cyngor Sir Caerfyrddin	Ardrethi y Swyddfa a'r Siambr 2022/2023	£1926.00
5823	JEMS Environmental Ltd	Hylendid dŵr - Mawrth 2022	£281.26
5825	Comcen Computer Supplies Ltd	Bar sain awdio/ fideo a llwybrydd	£870.00
5826	S Griffith	Cyflog Ebrill 2022, gan gynnwys lwfans defnyddio'r tŷ fel swyddfa	£2366.37
5827	R Thomas	Cyflog Ebrill 2022, gan gynnwys lwfans defnyddio'r tŷ fel swyddfa	£676.31
5828	Cyllid y Wlad	Ebrill 2022	£1051.00
5830	Martin Davies	Cyfieithu'r Cofnodion	£184.65
5832	Smiths of Derby	Gwasanaethu cloc Cilyrychen yn flynyddol	£291.60
5833	Morgan and Morgan	Deunydd ysgrifennu	£169.69
5834	Morgan and Morgan	Deunydd ysgrifennu	£23.46
5835	Cyngor Sir Caerfyrddin	Ardrethi pafiliwn Bowlio a Thenis Llandybïe, 2022/2023	£1043.25

 Cadeirydd

Ebrill 27^{ain}, 2022

5837	Martin Davies	Cyfieithu sylwadau'r Cadeirydd ar gyfer yr adroddiad blynyddol 2021/2022	£32.35
5838	J T Services	Agor a chau'r cyfleusterau cyhoeddus, a thorri'r glaswellt ddwy waith yng Ngorsddu	£980.00
5839	BT 15//4/22 – 14/7/22	Bil ffôn y Clerc	£139.69
5840	Morgan and Morgan	Outlook 365 – tanysgrifiad blynyddol 17/4/22- 16/4/23	£1360.80

Penderfynodd yr Aelodau gymeradwyo talu'r cyfrifon hyn a chymeradwyo, yn ôl-weithredol, y taliadau a awdurdodwyd gan y Cadeirydd.

(ii) Monitro'r gyllideb yn fisol – Ebrill 1/4/21 hyd at 31/03/22

Amcangyfrif 2020/21	Gwariant gwirioneddol hyd yn hyn	
£	£	
180,000	180,000	Praesept
150	18	Llog: Lloyds
400	201	Llog: cyfrifon cadw Hawliau Tramwy
3000	3,000	Cyhoeddus
	13,274	Adran 106
4700	2,350	Cytundebau Llogi
	1,776	Ad-daliad Ardrethi
<u>188,250</u>	<u>200,619</u>	
<u>45,889</u>	<u>46,159</u>	Staffio
17,650	10,437	Adeiladau
		Gwasanethau
4,750	3,032	Swyddfa
3,100	270	Costau'r Aelodau
		Gwasanaethau a Thanysgrifiadau
10,000	4,126	
}	18,000	9,130 Adran 137
		0 Taliadau yn unol â phwerau eraill
		Mannau agored cyhoeddus
	850	
	4,350	Neuaddau pentref
	4,100	Claddfeydd
}	10,000	6,230 Hawliau Tramwy Cyhoeddus – cynnal a chadw

Cadeirydd

Ebrill 27^{ain}, 2022

		Hawliau Tramwy Cyhoeddus
	0	- gwelliannau
28,000	26,438	Torri'r glaswellt/ sbwriel/ cyfleusterau
		Atgyweirio ac amnewid offer
50,000	35,688	yn y parciau
}	0	Goleuo cyhoeddus - ynni
8,500		Goleuo cyhoeddus - gwelliannau
	0	
28,000	5,524	Datblygu Cymunedol Cyfleusterau
13,000	10,015	Cyhoeddus
<u>236,889</u>	<u>129,833</u>	

		Balans am y flwyddyn
	34,270	(cyfnod
	311,004	d/y
0	<u>345,274</u>	c/y
		Arian parod a
	339,200	buddsoddiadau
	6,074	Dyledwyr
	0	Credydwyr
	<u>345,274</u>	

Roedd y Cadeirydd wedi gwahodd cwestiynau neu sylwadau.

Penderfynodd yr Aelodau gymeradwyo'r cyfrifon fel uchod.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei adroddiad.

(iii) Cysoniad arian parod ar gyfer mis Mawrth 2022

Roedd y Cynghorydd D. Nicholas wedi cynnal adolygiad llawn a boddhaol o'r Llyfr Arian Parod ar Ebrill 4^{ydd}, 2022. Nid oedd unrhyw faterion i'r dwyn at sylw'r Cyngor.

(iv) Cymeradwyo'r adroddiad ariannol ar gyfer 2021--22

Roedd y Clerc wedi dosbarthu copïau o'r adroddiad ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar Fawrth 31^{ain}, 2022, adroddiad a fydd yn cael ei gyflwyno at sylw'r Archwilydd Mewnol.

Roedd y Cadeirydd wedi gwahodd unrhyw gwestiynau neu sylwadau ynghylch yr adroddiad. Nid oedd unrhywun.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei adroddiad.

Cadeirydd

1089.

Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2020/2021

Roedd y Cynghorydd I. Rh. Llewelyn wedi traddodi ei adroddiad blynyddol am y flwyddyn 2020/2021. Roedd wedi cyfeirio'r Aelodau at ei adroddiad ysgrifenedig a fydd nawr yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Roedd y Cadeirydd wedi cyfeirio at y gwaith rhagorol a oedd wedi'i wneud gan y Cyngor yn ystod ei dymor yn y swydd, c wedi diolch i'w gyd-Gynghorwyr am eu cefnogaeth, ac i'r Clerc am barhau i gyflawni ei dyletswyddau gweinyddol mewn ffordd broffesiynol.

Roedd y Cynghorydd Mrs C Thomas wedi gofyn pa fathau o chwynladdwyr oedd yn cael eu defnyddio gan Gyngor Sir Caerfyrddin pan yn rheoli gwrychoedd, a tra'n gwneud eu gwaith cynnal a chadw cyffredinol. **Penderfynwyd** y byddai'r Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i ofyn am y manylion.

Hefyd, gofynnwyd i'r Clerc holi ynghylch sut roedd y nifer o gynghorwyr ward yn cael ei bennu, a phwy oedd yn gwneud y penderfyniad i ddiwygio'r niferoedd yn seiliedig ar newidiadau yn y boblogaeth.

Penderfynwyd, yn ffurfiol, dderbyn adroddiad blynyddol y Cadeirydd am y flwyddyn 2020/2021, yn dilyn ategu enwau dau Aelod blaenorol a oedd wedi bod yn Gynghorwyr am ran o'r flwyddyn honno.

Hefyd, roedd y Cadeirydd wedi diolch i'r Cynghorwyr Mrs Ll. Hindley, B Rees, Mrs Ll. Latham a C. J Harris a oedd wedi penderfynu peidio ail-sefyll etholiad yn yr etholiadau sydd ar ddod i'r Cyngor Cymuned.

1090.

Adroddiad ynghylch cyllid Adran 106

Nid oedd unrhyw faterion i'w cofnodi.

1091.

Gwybodaeth ynghylch Seminarau / Cyfarfodydd ar y Cyd

Ar Ebrill 26^{ain} roedd y Clerc wedi mynychu, yn rhithiol, cyfarfod chwarterol Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol.

1092.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Penderfynodd yr Aelodau y dylid cynnal Cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor ar Fai 18^{fed}, 2022, dyddiad sydd yn gynharach nag arfer yn y mis oherwydd bod y ddeddfwriaeth yn mynnu bod cyfarfod cyntaf y Cyngor newydd yn cael ei gynnal o fewn 14 diwrnod wedi'r etholiad. Bydd y cyfarfod Cyffredin yn dilyn cyfarfod Statudol y Cyngor, a gynhelir ar yr un noswaith am 6.30 yh.

1093.

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.20 yh.